The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Cais am Ganiatâd Datblygu ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd**

**Cyf yr Achos: EN010007**

**Nodyn y Panel o Archwiliad Safle Digwmni**

Cynhaliodd yr Awdurdod Archwilio (‘y Panel’) archwiliad safle digwmni i ategu ei archwiliad o gais am ganiatâd datblygu ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear arfaethedig Wylfa Newydd (‘y cais’) ar 12 a 15 Chwefror 2019.

Cynhaliwyd yr Archwiliadau Safle Digwmni mewn car ac ar droed, ar ffyrdd a llwybrau troed cyhoeddus. Ni chynhaliwyd unrhyw archwiliadau ar dir preifat, nid oedd angen caniatâd o flaen llaw i fynd ar dir ac felly cynhaliwyd yr archwiliadau hyn yn ddigwmni.

Cynlluniwyd y llwybrau ar gyfer yr ymweliadau gan ystyried materion a godwyd yn ystod yr Archwiliad, i alluogi’r Panel i weld golygfeydd o’r cais arfaethedig, gan gynnwys safleoedd datblygu cysylltiedig arfaethedig. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i’r golygfannau wedi’u dilysu a geir yn y Datganiad Amgylcheddol.

**12 Chwefror 2019**

Dechreuodd y Panel yr Archwiliad Safle Digwmni trwy edrych ar y llwybr arfaethedig ar gyfer Trydedd Bont y Fenai.
- *Cymylog, gwelededd cymedrol*

Wedi hynny, edrychodd y Panel ar leoliad Eglwys Sant Padrig, Llanbadrig (Ased 26; Rhestredig Gradd II*) a Phwynt Llanbadrig - VP 11/ Ph 11 – yr olygfa ar draws Bae Cemaes tuag at Benrhyn Wylfa a Champws y Safle.
- *Cymylog, gwelededd cymedrol*

Oddi yno, archwiliodd y Panel leoliad Eglwys Sant Mechell, Llanfechell (Ased 369 Rhestredig Gradd II*) a sgwâr y pentref yn Llanfechell wrth gyffordd Rhes y Goron a Lôn Mynydd â Brynddu Road.
- *Cymylog, gwelededd cymedrol*

Nesaf, teithiodd y Panel i Fynydd y Garn i gael cyd-destun golygfeydd yn ôl o Wylfa Newydd ac Wylfa A (VP7, sef yr olygfan agosaf yn y Datganiad Amgylcheddol; Yr olygfa ogledd-ddwyreiniol o Gofeb William Thomas ym Mynydd y Garn - o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)).
- *Cymylau isel, gwelededd teg i wael iawn ar y copa*

Yna, arhosodd y Panel yn Llanfairynghornwy, yn y gilfan ger rhan ogleddol yr anheddiad, lle mae’r golygfeydd yn fwy agored. (VP8 ond dim Ffotogyfosodiad. Wedi hynny, archwiliodd y Panel leoliad Eglwys y Santes Fair, Llanfairynghornwy (Ased 423; Adeilad Rhestredig Gradd I).
- *Cymylau isel, glaw mân, gwelededd teg*

Wedi hynny, ymwelodd y Panel â Llwybr Arfordir Cymru: Hen Borth i Fryn Aber (VP 25 Ph 25) ym Mae Cemlyn trwy Drwyn Cemlyn - i gael cyd-destun golygfeydd gorllewinol yn ôl tuag at Wylfa Newydd ac Wylfa A, yr AHNE a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Bae Cemlyn.

Ar hyd y llwybr hwn, archwiliodd y Panel leoliad Eglwys Sant Rhwydrys, Llanrhwydrys (Ased 155; Adeilad Rhestredig Gradd II*) yn ogystal â lleoliad Plas Cemlyn ac effeithiau sŵn posibl arno (Ased 215; Adeilad Rhestredig Gradd II).
- *Cymylau isel, glaw mân, gweledadd cymedrol i deg*

Yna, archwiliodd y Panel VP a Ph 27 ar draws Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd (WNDA) o'r de ac o fewn yr AHNE.
- *Cymylau isel, gweledadd cymedrol*

Yn olaf, cynhaliwyd archwiliad yn edrych ar is-ffyrdd yn yr ardal.
- *Cymylau isel, gweledadd cymedrol*

**15 Chwefror 2019**

Dilynodd y Panel yr A55 i Gyffordd 5, ac yna'r A5 tua'r gorllewin. Teithiodd y Panel trwy Barc Cybi, Dalar Hir, y Fali a Llanfachreth
- *Oer, sych, gweledadd da*

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Application for Development Consent for the Wylfa Newydd Nuclear Power Station**

**Case Ref: EN010007**

**Panel's Note of Unaccompanied Site Inspection**

The Examining Authority ('the Panel') undertook an unaccompanied site inspection to support its examination of an application for development consent for the proposed Wylfa Newydd Nuclear Power Station ('the application') on the 12 and 15 February 2019.

The Unaccompanied Site Inspections (USIs) were undertaken by car and on foot, on public roads and footpaths. No inspections were undertaken on private land, advance permission to enter land was not required and so these inspections were undertaken on an unaccompanied basis.

Routes for visits were planned having regard to issues raised during the Examination, enabling the Panel to obtain views of the proposed application including proposed associated development sites. Regard was also given to the verified viewpoints contained in the Environmental Statement (ES).

**12 February 2019**

The Panel began the USI viewing the proposed route for the third Menai Crossing.
- *Cloudy, visibility moderate*

Following this, the Panel viewed the setting of St. Patrick's (St Patrig's) Church, Llanbadrig (Asset 26; Grade II* Listed) and Llanbadrig Point - VP 11/ Ph 11 – view across Cemaes Bay to Wylfa Head and Site Campus.
- *Cloudy, visibility moderate*

From here, the Panel inspected the setting of Llanfechell St Mechell's Church, (Asset 369 Grade II* Listed) and the village square in Llanfechell at the junction of Rhes Y Goron/Crown terrace and Lon Mynydd/Mountain Road with Brynddu Road.
- *Cloudy, visibility moderate*

Next, the Panel travelled to Mynydd y Garn – gaining context of views back from WN and Wylfa A (Closest ES viewpoint VP7; View NE from William Thomas Monument at Mynydd y garn – within AONB).
- *Low cloud, visibility fair to very poor at summit*

The Panel then stopped at LLanfairynghornwy, in the layby by northern part of the settlement where the more open views are available. (VP8 but no Photomontage. Subsequently, the Panel inspected the setting of St Mary's Church, Llanfairynghornwy (Asset 423; Grade I Listed Building).
- *Low cloud, drizzle, visibility fair*

Thereafter, the Panel visited the Welsh Coastal Path: Hen Borth to Bryn Aber (VP 25 Ph 25) at Cemlyn Bay via Trwyn Cemlyn – to gain context of western views

back to WN and Wylfa A. AONB and Cemlyn Bay SSSI and SAC. Along this path, the Panel inspected setting of the Church of St. Rhwydrys Llanrhwydrys (Asset 155; Grade II* Listed Building) and also the setting and potential noise impacts at Plas Cemlyn (Asset 215; Listed Building Grade II).
- *Low cloud, drizzle, visibility moderate to fair*

The Panel then inspected VP and Ph 27 across WNDA from the south and within the AONB.
- *Low cloud, visibility moderate*

Finally, an inspection was carried out looking at minor roads in the area.
- *Low cloud, visibility moderate*

**15 February 2019**

The Panel followed the A55 to Junction 5, then onto theA5 westwards. The Panel travelled through Parc Cybi, Dalar Hir, Valley and Llanfachreth
- *Cold, dry, good visibility*